O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2011 Rhif 339 (Cy.53)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Glanyrafon i Fraich Ddu, Gwynedd) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *07 Chwefror 2011* |
| *Yn dod i rym* | *12 Chwefror 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Dolgellau - Man i'r De o Benbedw (yr A494) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarn penodol o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno;

Mae Gweinidogion Cymru, gan hynny, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn:

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Mawrth 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Glanyrafon i Fraich Ddu, Gwynedd) (Cyfyngiadau Traffig a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011.

**2.** (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr *"*cyfnod y gwaith*"* ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 08:00 o'r gloch ar 12 Chwefror 2011 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu tynnu oddi yno'n derfynol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" (*"the length of the trunk road*") yw'r darn hwnnw o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.